# PWYLLGOR TRWYDDEDU

# 27 MEHEFIN 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd) **(Yn y Siambr):**

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
P. Cooper J.K. Howell H. Jones B.D.J. Phillips

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
A. Evans W.T. Evans D. Jones M.J.A. Lewis
K. Madge

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu;
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:57yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Roberts a D. E. Williams.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. PENODI AELODAU AR GYFER YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM WEDDILL BLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 a roddai fanylion ynghylch aelodaeth arfaethedig Is-bwyllgorau Trwyddedu “A” a “B” ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai aelodaeth Is-bwyllgorau Trwyddedu "A" a "B" ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24 fel a ganlyn:**

**<u>Is-bwyllgor Trwyddedu "A”</u>**

**Y Cynghorydd Suzy Curry, Y Cynghorydd Mansel Charles, Y Cynghorydd Alex Evans, Y Cynghorydd Tyssul Evans, Y Cynghorydd Ken Howell, Y Cynghorydd Peter Cooper ac un swydd wag.**

**Is-bwyllgor Trwyddedu B"**

**Y Cynghorydd Hefin Jones, Y Cynghorydd Jean Lewis, Y Cynghorydd Dorian Phillips, Y Cynghorydd Elwyn Williams, Y Cynghorydd Dot Jones, Y Cynghorydd Kevin Madge a'r Cynghorydd Louvain Roberts.**

**4. PENODI CADEIRYDDION YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023/24**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried enwebiadau ar gyfer Cadeiryddion yr Is-bwyllgorau Trwyddedu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1 Bod y Cynghorydd M. Charles yn cael ei benodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu "A" ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24;**

**4.2 Bod y Cynghorydd D.E. Williams yn cael ei phenodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu "B" ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.**

**5. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 20FED EBRILL 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor A y Pwyllgor Trwyddedu oedd wedi ei gynnal ar 20 Ebrill 2023 yn gofnod cywir.**

**6. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR:-**

**6.1. 13 EBRILL, 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor B y Pwyllgor Trwyddedu oedd wedi ei gynnal ar 13 Ebrill 2023 yn gofnod cywir.**

**6.2. 8 MEHEFIN 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor B y Pwyllgor Trwyddedu oedd wedi ei gynnal ar 8 Mehefin 2023 yn gofnod cywir.**

**7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 4 EBRILL, 2023.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu oedd wedi ei gynnal ar 4 Ebrill 2023 yn gofnod cywir.**

## 8. TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Geoffrey Karin Davies o Airport Flyer, 37a Heol Newydd, Dafen, Llanelli am eithriad o amodau 5a a 5b Amodau Trwydded y Cyngor ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat PH 546 - Kia Optima rhif cofrestru CP18 UTF, Cerbyd Hurio Preifat PH 567 - Ford Tourneo rhif cofrestru SA72 GPF a Cherbyd Hurio Preifat PH 509a Renault Trafic rhif cofrestru CU18 HXB.

Dywedwyd, gan mai bwriad Mr Davies oedd gweithredu'r cerbyd at ddiben hurio dethol, gwaith meysydd awyr/porthladdoedd yn unig, ei fod wedi gofyn am eithriad o amodau 5a a 5b o Amodau Trwydded y Cyngor, sef na fydd yn ofynnol iddo arddangos sticeri drws a phlât trwydded ar y bympar ôl ar ei gerbyd.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor pe bai'n cytuno i roi eithriad i Mr Davies, y byddai'r amodau canlynol ynghlwm wrth y Drwydded:-

I. Bod Cerbyd Hurio Preifat PH 546 - Kia Optima rhif cofrestru CP18 UTF, Cerbyd Hurio Preifat PH 567 - Ford Tourneo rhif cofrestru SA72 GPF a Cherbyd Hurio Preifat PH 509 - Renault Trafic rhif cofrestru CU18 HXB yn cael eu heithrio o amodau trwyddedu 5a a 5b tra byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion Hurio Dethol fel yr amlinellwyd yn y cais gan Mr Davies.

II. Petai'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Hurio Preifat, yn hytrach na'r math Hurio Dethol o waith a restrir, fod yr ymgeisydd yn rhoi gwybod ar unwaith i'r Awdurdod Trwyddedu a bod yr eithriad yn darfod o ran dibenion hurio o'r fath.

III. Bod y cerbyd yn arddangos disg adnabod ar y ffenestr flaen a'r ffenestr ôl, fel y pennwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais a gyflwynwyd gan Mr Geoffrey Karin Davies am eithriad o Amodau 5a a 5b o Amodau Trwydded y Cyngor ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat PH 546 - Kia Optima rhif cofrestru CP18 UTF, Cerbyd Hurio Preifat PH567 - Ford Tourneo rhif cofrestru SA72 GPF a Cherbyd Hurio Preifat PH 509 - Renault Trafic rhif cofrestru CU18 HXB.**

## 9. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 10. MR GEOFFREY KARIN DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cais wedi'i dderbyn gan Mr Geoffrey Karin Davies, 37a Heol Newydd, Dafen, Llanelli, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr. Davies yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr. Geoffrey Karin Davies yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 11. MR LEE JENKINS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu at y cais a dderbyniwyd gan Mr Lee Jenkins, 89 Stryd Iago, Llanelli, am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat, a gofynnodd am gael gohirio ystyried y cais tan y cyfarfod nesaf er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr Geoffrey Karin Davies yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 12. MR JONATHAN THOMAS JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cais wedi'i dderbyn gan Mr Jonathan Thomas Jones, 44 Heol Glenalla, Llanelli, am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Jones ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Jones yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr Jonathan Thomas Jones yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**13. MR CARWYN DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cais wedi'i dderbyn gan Mr Carwyn Davies, Iscoed, Llanybydder am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Davies yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr Carwyn Davies yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**